Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Gwasanaethau cyfrwng Cymraeg fel cydran offeryn data allweddol

## Offeryn Data Arolygiaeth Gofal Cymru

Tachwedd 2022

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi datblygu a chyhoeddi offeryn data rhyngweithiol lle, o'r cychwyn cyntaf, mae'r Gymraeg wedi'i hystyried yn llawn fel elfen graidd. Mae'r offeryn dwyieithog yn galluogi pobl i chwilio am ddarpariaeth gofal cymdeithasol a gofal plant dwyieithog a chyfrwng Cymraeg ledled Cymru.

### Cefndir

Er bod rhywfaint o ddata ar gael i'r cyhoedd yn adroddiadau blynyddol AGC a thablau data ar StatsCymru, dim ond drwy ddarllen adroddiadau arolygu unigol yr oedd data ar ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg yn y sector gofal cymdeithasol a gofal plant ar gael. Cyhoeddodd AGC offeryn data rhyngweithiol annibynnol yn seiliedig ar sefyllfa mis Mawrth 2020, ynghyd â'i Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-20 a oedd yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am y ddarpariaeth Gymraeg. Mae'r offeryn yn ymwneud â phwynt penodol mewn amser. Yn ogystal, oherwydd cyfyngiadau defnyddio Microsoft Power BI i gynhyrchu offer data mewn iaith heblaw Saesneg, ni fu modd cyfieithu rhai elfennau o'r offeryn Cymraeg gan fod y feddalwedd wedi'i rhaglennu i'r Saesneg rhagosodedig.

Y cymhelliant i ddatblygu'r offeryn data rhyngweithiol diweddaraf oedd dymuniad AGC i sicrhau bod y data cyhoeddus hwn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd a'i fod ar gael yn hawdd i asiantaethau a'r cyhoedd.

### Gwaith a gyflawnwyd – crynodeb byr

1. Adeiladu'r cwmpas ar gyfer yr offeryn i gael cymeradwyaeth rheolwyr ar y cynnwys.
2. Datblygu'r offeryn yn Saesneg, ond ystyried pa ddelweddau a ffilterau a ddefnyddir i sicrhau y gellir eu cyfieithu'n llawn.
3. Cyflwyno'r offeryn i uwch reolwyr ar gyfer adborth cychwynnol ac ailddatblygu.
4. Sefydlu grŵp o staff mewnol i brofi'r offeryn a rhoi adborth ar rwyddineb ei ddeall a rhwyddineb ei ddefnyddio. Cynlluniwyd y grŵp profi i sicrhau ei fod yn cynnwys aelodau o bob tîm o fewn AGC i sicrhau y byddai safbwyntiau gwahanol yn canolbwyntio ar yr offeryn ac i sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cynnwys.

5. Yn dilyn adborth ar yr offeryn Saesneg, cyfieithwyd y testun a datblygwyd fersiwn Gymraeg o'r offeryn.
6. Profi fersiwn Gymraeg yr offeryn gyda grŵp o staff sy’n siarad Cymraeg, gan gynnwys rhai a brofodd y fersiwn Saesneg, i sicrhau bod y fersiwn Gymraeg mor hawdd i’w deall a’i defnyddio â’r fersiwn Saesneg.
7. Yn dilyn adborth ar yr offeryn Cymraeg, gwnaed newidiadau terfynol i'r ddau fersiwn.
8. Cynllun cyfathrebu wedi'i ddatblygu i roi cyhoeddusrwydd i ryddhau'r offeryn ar sianeli cyfryngau cymdeithasol a gwefannau.
9. Yn hytrach na hyfforddiant ffurfiol traddodiadol, rhannwyd fideos YouTube yn dangos sut i ddefnyddio'r offeryn.
10. Cyhoeddi’r offeryn ar Ddydd Gŵyl Dewi 2022, gyda diweddariadau misol wedi hynny.

## Canlyniadau hyd yma

Ers cyhoeddi’r offeryn data, mae data cyfredol bellach ar gael yn hawdd ac yn ddefnyddiol i’r cyhoedd ac asiantaethau eraill. Gellir defnyddio’r offeryn yn awr i amlygu argaeledd a bylchau yn y gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog a ddarperir mewn lleoliadau gofal cymdeithasol a gofal plant ledled Cymru i helpu i ysgogi gwelliant.

Mae adborth anecdotaidd wedi awgrymu defnyddioldeb yr offeryn ac mae wedi ei argymell gan staff i gyrff cyhoeddus eraill. Mae AGC wedi rhyddhau arolwg i gasglu adborth er mwyn ei wella ymhellach dros amser.

## Manylion cyswllt

| | |
|---|---|
| Sefydliad: | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| E-bost: | AGC@llyw.cymru |
| Swyddog cyswllt: | Neil Fewtrell |

## Barn Comisiynydd y Gymraeg

Mae’n ofynnol i sefydliadau sy’n ddarostyngedig i safonau’r Gymraeg hyrwyddo unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddynt. Mae’r offeryn data hwn yn rhoi darlun o leoliadau gofal sy’n darparu eu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog i bobl o bob oed. Bydd yn ddefnyddiol wrth i ni graffu ar waith Llywodraeth Cymru i ehangu’r cynnig gofal plant 30 awr ac i ehangu’r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a fydd yn allweddol i wireddu’r weledigaeth o fewn Cymraeg 2050. Yn ogystal, bydd yn ddefnyddiol er mwyn ennill dealltwriaeth iaith/ieithoedd a ddefnyddir mewn cartrefi gofal ac wrth geisio annog gwireddu argymhellion ein hadroddiad ar ofal dementia i siaradwyr Cymraeg sy’n amlygu pwysigrwydd gofal Cymraeg i bobl sy’n byw gyda dementia.

Mae'r offeryn data hwn yn enghraifft o sut mae'r disgwrs wedi symud ymlaen o ddefnyddwyr yn gallu defnyddio gwybodaeth gyhoeddus yn eu dewis iaith a bod y ddarpariaeth Gymraeg bellach yn elfen allweddol. Mae hefyd yn enghraifft o sefydliad sydd wedi mynd gam ymhellach ac yn hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o

wasanaethau Cymraeg yn y sector gofal ar draws Cymru, ac yn annog defnydd o’r gwasanaethau Cymraeg hynny sydd ar gael.

Byddwn yn annog rheoleiddwyr neu berchnogion data eraill i ystyried sut y gallant wella eu darpariaethau a galluogi hidlo yn ôl iaith lle bo’n berthnasol, i roi darlun gwell i lunwyr polisi a’r rhai sy’n ymateb i ymgynghoriadau o’r ystyriaethau iaith Gymraeg o fewn gwahanol feysydd.